Bridfa Suffolk

Bridfa Factfile:

- 60 breeding ewes plus replacements
- Now run on coastal lowland farmland at the Institute of Rural Sciences, UWA.

When the Bridfa Suffolk flock was established in 1991, the 33 members donated ewes of various shapes and sizes but now, 15 years later, the flock is at the top of the performance league with the highest average in the country.

In the early days, the Bridfa management had been looking for consistent ewes with good conformation and rotated their best ram lambs around five family groups. However, they really began to make progress when the flock joined the Suffolk Sire Reference scheme and started to record properly. The SRS enabled them to have access to rams with a combination of high index and of a suitable type and since Bridfa was aiming for maximum index, all of the ewes were put to 'super sires' with very high figures.

The visible difference in the outputs from the flock year on year helped to firmly embed the ethos of recording and using performance figures for selection. As a result the flock's progress under the leadership of various Chairs has been immense. So much so that by 2002 Bridfa achieved the highest priced yearling ram and the highest group average at the Early NSA Ram Sale.

Current Bridfa Chairman Roland Williams firmly believes that success literally "breeds success". "The cost of production in the Bridfa flock has, historically, been quite high so the progress which has been made was crucial to ensure that the flock was financially viable. We have now developed a reputation in the commercial marketplace for producing extremely good performing animals and this is reflected in the high average prices that we are getting for our yearling rams. More and more commercial buyers are looking for rams with performance figures so hopefully this increasing demand will encourage more Suffolk breeders to start recording and those who have already started will begin to see the light at the end of the tunnel!"

As market forces change, the flock (which is now under the management of the Institute of Rural Sciences, Aberystwyth) is adapting to demands for animals with ease of lambing, increased vigour after birth, greater length and hindquarter development by selecting animals which will meet these requirements. This season the highest indexed ewes have been inseminated with semen from the best New Zealand Suffolk sire and the remaining ewes have been put to the highest index British Suffolk rams. Bridfa hope that this will not only give them a good return but will enable them to provide animals for customers seeking either traditional British Suffolk sires or good New Zealand-type hybrid rams for their flocks.

The Bridfa index has risen by £4.40 since the flock was established.

If a ram with an index of £4 is mated to an average ewe, you would expect to gain an extra £2/lamb from that ewe.

The Suffolks use a Terminal Sire Index which has been converted into £s.

Caiff y Rhaglen Datblygu Defaid a Chig Eidion, a gaiff ei rhedeg gan Hybu Cig Cymru, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio.

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 a 2 EUROPEAN UNION OBJECTIVES 1 & 2 Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

The Sheep and Beef Development Programme, run by Hybu Cig Cymru, is managed by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect.

November 2006

Bridfa Suffolk

Ffeil Ffeithiau:

- 60 o famogiaid magu ynghyd ag anifeiliaid cyfnewid
- Bellach yn pori tir isel arfordirol yn y Sefydliad Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Pan sefydlwyd diadell Suffolk Bridfa yn 1991, cyfrannodd y 33 aelod famogiaid o wahanol siâp a maint ond erbyn hyn, 15 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r ddiadell ar y brig o ran perfformiad gyda'r cyfartaledd uchaf yn y wlad.

Yn y dyddiau cynnar, roedd rheolwyr Bridfa yn chwilio am famogiaid â chysondeb a chydffurfiad da ac a oedd yn cylchredeg eu hŵyn hwrdd gorau o fewn pum grŵp teuluol. Fodd bynnag, daeth y cynnydd gorau pan ymunodd y ddiadell â Chynllun Cyfeirnod Hyrddod Suffolk a dechrau cofnodi'n gywir. Roedd y Cynllun Cyfeirnod yn caniatáu iddynt ddefnyddio hyrddod â chyfuniad o fynegrif uchel ac o deip addas a chan fod Bridfa'n anelu at gael y mynegrif uchaf posibl, defnyddiwyd yr hyrddod gorau oll, oedd â ffigurau uchel iawn, gyda'r holl famogiaid.

Sefydlwyd yr ethos o gofnodi a defnyddio ystadegau perfformiad wrth ddewis oherwydd y gwahaniaeth gweladwy yng nghynhyrchiant y ddiadell o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad, mae cynnydd y ddiadell dan arweiniad gwahanol Gadeiryddion wedi bod yn aruthrol. Enghraifft o gynnydd y ddiadell yw bod Bridfa wedi cael y pris gorau am hwrdd blwydd a'r cyfartaledd grŵp uchaf yn Arwerthiant Hyrddod Cynnar yr NSA.

Mae Cadeirydd presennol Bridfa, Roland Williams, yn gryf o'r farn bod llwyddiant yn llythrennol yn "magu llwyddiant". "Yn hanesyddol roedd y gost cynhyrchu yn niadell Bridfa yn eithaf uchel, ac felly roedd y cynnydd a wnaethom ni yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y ddiadell yn hyfyw yn ariannol. Erbyn hyn rydym ni wedi datblygu enw da yn y farchnad am gynhyrchu anifeiliaid sy'n perfformio'n eithriadol o dda ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y prisiau cyfartalog uchel rydym ni'n eu cael am ein hyrddod blwydd. Mae mwy a mwy o brynwyr masnachol yn chwilio am hyrddod â ffigurau perfformiad; felly, gyda lwc bydd y galw cynyddol yma'n annog mwy o fridwyr Suffolk i ddechrau cofnodi a bydd y rhai sydd wedi dechrau eisoes yn dechrau gweld golau dydd!"

Wrth i rymoedd y farchnad newid, mae'r ddiadell (sydd bellach dan reolaeth y Sefydliad Gwyddorau Gwledig, Aberystwyth) yn addasu i'r galw am anifeiliaid sy'n wyna'n haws, yn gryfach ar ôl eu geni, yn hirach ac sydd â'u chwarteri ôl wedi datblygu trwy ddewis anifeiliaid fydd yn ateb y gofynion hyn. Y tymor hwn, semenwyd y mamogiaid gorau â semen o'r hwrdd Suffolk Seland Newydd gorau a defnyddiwyd yr hyrddod Suffolk Prydeinig â'r mynegrifau uchaf ar weddill y mamogiaid. Mae Bridfa'n gobeithio y bydd hyn nid yn unig yn dod ag enillion da iddynt, ond hefyd yn eu galluogi i ddarparu anifeiliaid i gwsmeriaid sy'n chwilio am naill ai hyrddod Suffolk Prydeinig traddodiadol neu hyrddod croesryw da o deip Seland Newydd ar gyfer eu diadelloedd.

Mae mynegrif Bridfa wedi codi £4.40 ers sefydlu'r ddiadell.

O ddefnyddio hwrdd â mynegrif o £4 ar famog gyffredin, gallech ddisgwyl ennill £2 yr oen yn ychwanegol o'r famog honno.

Mae'r Suffolks yn defnyddio Mynegrif Hyrddod Terfynol wedi ei drosi'n bunnoedd.

Caiff y Rhaglen Datblygu Defaid a Chig Eidion, a gaiff ei rhedeg gan Hybu Cig Cymru, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio.

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 a 2 EUROPEAN UNION OBJECTIVES 1 & 2 Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

The Sheep and Beef Development Programme, run by Hybu Cig Cymru, is managed by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect.

Tachwedd 2006